Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau i Ofwat ar Godi Tâl am Ffioedd Datblygwyr, Ffioedd Swmpgyflenwadau a Ffioedd Mynediad

2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG32987 ISBN digidol: 978-1-78859-567-4

# Canllawiau i Ofwat ar Godi Tâl am Ffioedd Datblygwyr, Ffioedd Swmpgyflenwadau a Ffioedd Mynediad


1. **Cyflwyniad**
2. **Cyd-destun**
3. **Canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer ffioedd cysylltiadau newydd**
4. **Canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer swmpgyflenwadau a swmp ollyngiadau**
5. **Canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer mynediad at rwydweithiau dŵr**
6. **Atodiad**


## 1. Cyflwyniad

1.1. Cyflwynir y canllawiau codi tâl hyn o dan Adran 144ZE o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ("y Ddeddf") fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Dŵr 2014.

1.2. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â thri maes codi tâl a fynnir gan ymgymerwyr dŵr a/neu garthffosiaeth ("ymgymerwyr"): ffioedd ar gyfer cysylltiadau newydd â rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth ("ffioedd datblygwyr"); ffioedd ar gyfer swmpgyflenwi a swmp ollwng; a ffioedd ar gyfer mynediad at rwydweithiau ymgymerwyr dŵr.

1.3. Mae'r Ddeddf yn ei wneud yn ofynnol i ymgymerwyr gydymffurfio â rheolau Ofwat wrth bennu eu ffioedd. Os yw Ofwat yn ystyried nad yw ymgymerwr yn ymddwyn yn unol â'r rheolau, caiff roi cyfarwyddyd i'r ymgymerwr. Wrth lunio rheolau codi tâl, mae'n rhaid i Ofwat baratoi drafft o unrhyw reolau arfaethedig ac ymgynghori ag unigolion perthnasol cyn i'r rheolau ddod i rym. Bydd rheolau codi tâl Ofwat yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i godi cyfarwyddyd i Ofwat beidio â chyhoeddi'r rheolau, er enghraifft, os ydynt yn ystyried nad yw'r rheolau yn gyson â'r canllawiau. Pan fo Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig, mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofwat yn adolygu ac, os oes angen, yn diwygio'r rheolau codi tâl perthnasol.

## 2. Cyd-destun

2.1. Ni chaiff ein canllawiau gwmpasu sut y mae Ofwat yn creu ei Reolau Codi Tâl. Fodd bynnag, gofynnwn i Ofwat wneud darpariaeth ar gyfer adolygu'r rheolau yn rheolaidd, gan ystyried graddau a chynnwys penderfyniadau adolygu prisiau a wnaed a chanlyniad yr ymgynghoriad. Gofynnwn hefyd i Ofwat ddiweddaru ei Reolau Codi Tâl, pan fo hynny'n briodol, i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu system codi tâl sy'n dryloyw, yn effeithlon, yn deg, yn synhwyrol ac yn effeithiol ac yn cyd-fynd ag unrhyw ddatblygiadau yn y sector yn y dyfodol.

2.2. Mae'n rhaid i Ofwat gynnal ymgynghoriad statudol cyn cyhoeddi ei reolau codi tâl yn unol â gweithdrefnau a bennir yn y Ddeddf. Gofynnwn i Ofwat

gymryd camau rhesymol i sicrhau bod ei ymgynghoriad yn glir ac yn hawdd ei ddeall, a bod wedi'i osod o fewn fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol Cymru.

2.3. Credwn y bydd mecanwaith priodol ar gyfer adrodd, monitro a rhoi sicrwydd i gwmnïau ynghylch ffioedd ymgymerwyr ar gyfer cysylltiadau newydd yn helpu i sicrhau tryloywder ac eglurder o ran y ffioedd a godir, gan fagu hyder yn y system rheolau codi tâl, yn ogystal â lleihau'r achosion o anghydfod. Felly, rydym yn annog Ofwat i ystyried sut y gall roi mecanwaith o'r fath ar waith.

## 3. Canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer ffioedd am gysylltiadau newydd

3.1 Mae'r Ddeddf yn caniatáu i ymgymerwyr godi tâl am osod cysylltiadau newydd i'r rhwydwaith, ac am waith cysylltiedig. Mae'r rhain yn cyfeirio at ffioedd a godir gan ymgymerwyr am gysylltiadau newydd i'r rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth ac unrhyw seilwaith cysylltiedig a ddarperir. Mae'n bosibl y byddant yn berthnasol i ddatblygwyr, cwsmeriaid hunanadeiladu a chwsmeriaid hunan-osod.

3.2 Mae tair ffi allweddol sy'n ymwneud â chysylltiadau datblygu:

- Ffi cysylltu i adennill costau cysylltu eiddo â'r brif bibell ddŵr neu garthffos.

- Ffi seilwaith i gyfrannu at gostau ehangu'r rhwydwaith darparu dŵr lleol a'r rhwydwaith carthffosiaeth lleol. Ar hyn o bryd, ceir cap ar y ffioedd ar sail fesul eiddo, fel y'i nodwyd yn amod trwyddedu C o drwydded yr ymgymerwr. Ni fwriedir i ffioedd seilwaith dalu'r gost o greu capasiti ychwanegol mewn gweithiau trin dŵr neu ddŵr gwastraff.

- Ffi ceisiadau i gyfrannu at gost resymol darparu'r seilwaith dosbarthu dŵr a charthffosiaeth angenrheidiol ar gyfer datblygiad penodol y tu allan i'r rhwydwaith lleol. Ar hyn o bryd, cyfrifir y ffi ar gyfer datblygiadau unigol lle caiff costau darparu seilwaith eu gwrthbwyso yn erbyn refeniw a gyfrifir. Mae'r datblygwr yn cyfrannu pan fo'r gost o ddarparu seilwaith yn fwy na'r refeniw y cyfrifir y bydd y datblygiad yn ei greu dros gyfnod o ddeuddeng mlynedd.

Yn ogystal â'r uchod, ceir nifer o ffioedd ychwanegol (e.e. ffioedd dylunio a gweinyddu) y ceir eu codi.

3.3 Mae'r canllawiau hyn ar drefniadau codi tâl ar gyfer cysylltiadau newydd yn berthnasol i ddefnyddwyr domestig gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth, naill ai ar gyfer eiddo preswyl neu eiddo dibreswyl. Mae'n gysylltiedig â'r mathau canlynol o reolau codi tâl y gall Ofwat eu cyflwyno o dan y Ddeddf:

- Hunan-osod a mabwysiadu seilwaith dŵr (adran 51CD);
- Hunan-osod a mabwysiadu seilwaith carthffosiaeth (adran 105ZF);
- Cysylltiadau dŵr a charthffosiaeth a gwaith cysylltiedig (adran 144ZA (1)(a) – (g)), gan gynnwys ffioedd am symud pibelli (adran 185).

3.4. Dylai rheolau codi tâl Ofwat ei gwneud yn ofynnol i drefniadau codi tâl yr ymgymerwyr gael eu pennu yn unol â’r egwyddorion a nodir isod a bod yr ymgymerwyr yn hyrwyddo ymgynghoriad effeithiol, amserol a chymesur. Dylai hyn helpu i sicrhau bod y cynlluniau codi tâl yn ystyried amgylchiadau lleol o fewn pob ardal benodedig.

3.5. Wrth greu’r rheolau codi tâl newydd hyn, dylai Ofwat, i’r graddau ei fod yn ymarferol resymol, sicrhau bod y rheolau yn gydnaws â'i gilydd, a phan nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn disgwyl i ymgymerwyr fod yn hyblyg wrth ddarparu trefniadau codi tâl yn unol â barn cwsmeriaid a rhanddeiliaid. Byddwn yn disgwyl i reolau Ofwat annog cwmnïau i ymgynghori’n helaeth, a hynny cyn gynted ag y bo’n ymarferol. Dylai Ofwat annog cwmnïau i ymgysylltu â’r holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a datblygwyr er mwyn cyhoeddi datganiad sy’n nodi'r ymgysylltiad a gyflawnwyd, sut y maent wedi ystyried barn y rhanddeiliaid, a nodi a chyfiawnhau pan fo yna gyfaddawd rhwng yr egwyddorion isod ac unrhyw flaenoriaethau ac amcanion sy’n cystadlu a godwyd gan randdeiliaid.

**i) Symlrwydd a thryloywder**

Dylai ffioedd fod yn dryloyw, yn syml ac yn ddealladwy. Bydd hyn yn lleihau’r ansicrwydd o ran y tybiaethau y mae ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn eu gwneud wrth gynllunio eu busnes.

Dylai Ofwat gyhoeddi egwyddorion clir ar gyfer y costau y bwriedir eu hadennill drwy’r gwahanol ffioedd, yn ogystal â’r cyfrifiad o daliadau asedau a gwrthbwysiadau incwm. Mae’n bosibl gwella symlrwydd a thryloywder drwy:

- sicrhau bod ffin amlwg (h.y. dim gorgyffwrdd posibl) rhwng y costau y dylai’r ffioedd gwahanol ddarparu ar eu cyfer;
- caniatáu hyblygrwydd i gwmnïau newid y ffordd y mae unrhyw wrthbwysiadau incwm yn cael eu cyfrifo.

**ii) Sefydlogrwydd, rhagweladwyedd a phrydlondeb**

Dylai datblygwyr allu cynllunio costau datblygiad yn hyderus. Dylai’r rheolau codi tâl annog cysondeb yn y dull o godi tâl ar gyfer cysylltiadau neu fabwysiadu seilwaith. Dylai gwybodaeth am y mathau o ffioedd y gellid eu cymhwyso, a’r hyn y gall y ffioedd hynny ei gynnwys, fod ar gael i ddatblygwyr.

Mae datblygwyr yn rhoi pwys mawr ar sefydlogrwydd wrth godi tâl ar gyfer costau, yn arbennig o ran sicrhau bod y ffioedd a ddyfynnir gan ymgymerwyr cyn i’r gwaith ddechrau yn realistig, yn deg ac yn gywir. Dylai rheolau codi tâl, cyn belled ag y bo hynny’n bosibl, ei gwneud yn glir pwy sy’n ysgwyddo’r risg

pe bai costau gwirioneddol y gwaith yn wahanol i’r dyfynbrisiau a roddwyd gan yr ymgymerwyr a’r ffioedd a godir yn y diwedd. Ni ddylai datblygwyr orfod talu ffioedd sy’n uwch na’r rhai hynny a ddyfynnwyd fel arfer, oni bai eu bod o ganlyniad i wybodaeth anghywir a ddarparwyd gan y datblygwr, neu fethiant y datblygwr i weithredu yn unol ag unrhyw delerau y cytunwyd arnynt gyda’r ymgymerwr. Pan fo angen addasu ffioedd i adlewyrchu’r costau yn well, dylai ymgymerwyr fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch natur a graddfa y ffioedd posibl, a dylent gael eu rheoli modd sy’n glir ac y gellir ei gyfiawnhau. Pan fo datblygwyr yn wynebu ffioedd ychwanegol, dylid rhoi cyfiawnhad clir i’r ffioedd hynny.

**iii) Bydd ffioedd sy’n adlewyrch**u’n glir y gwaith cysylltiedig yn magu hyder datblygwyr ac yn eu galluogi i gynllunio a chyllidebu ar gyfer datblygiadau newydd yn fwy effeithiol.

Dylai datblygwyr ysgwyddo costau ar y safle sy’n adlewyrchu’r gwaith o gysylltu â systemau dŵr a charthffosiaeth neu eu mabwysiadu. Dylent hefyd ysgwyddo’r costau sydd eu hangen i ddarparu a gwella’r seilwaith presennol (ar y safle neu oddi arno) er mwyn i’r rhwydwaith allu ymdopi â’r gofynion sy’n tarddu o’u cysylltiad â’r systemau dŵr a charthffosiaeth, neu eu mabwysiadu.

Ni ddylai datblygwyr orfod ysgwyddo costau cryfhau, uwchraddio neu newid mewn unrhyw ffordd arall seilwaith y rhwydwaith presennol er mwyn darparu ar gyfer unrhyw ddiffygion blaenorol o ran capasiti neu alluedd neu er mwyn darparu capasiti yn y dyfodol. Pan ddarperir seilwaith sydd â mwy o gapasiti nag sydd ei angen ar gyfer datblygiad newydd penodol, dylai’r rheolau sicrhau bod y costau yn cael eu priodoli a’u dyrannu’n briodol i’r datblygiad newydd.

Dylai Ofwat ei gwneud yn ofynnol i ymgymerwyr ystyried amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer eu strwythur codi tâl er mwyn sicrhau mai’r un a ddewisir yw'r strwythur codi tâl mwyaf addas. Rydym yn nodi’r diddordeb a fynegwyd gan rai cwsmeriaid / rhanddeiliaid mewn strwythur codi tâl sy’n syml, sy’n codi ffi gyfartalog sy’n berthnasol ar draws rhanbarth ymgymerwr. Serch hynny, rydym yn cydnabod y gallai fod yna gyfaddawd rhwng dull o’r fath ac, yn benodol, hyrwyddo’r amcan cynaliadwyedd amgylcheddol isod. Byddai’r dull hwn yn gofyn am ystyriaeth ofalus o ran y gyfraith cystadlu, o ystyried natur y gwasanaethau y gellir eu cyflawni gan yr ymgymerwyr yn unig a’r gwasanaethau y gellir cystadlu i’w cyflawni, ond yn hanfodol, ni ddylai’r rheolau codi tâl gyfyngu ar y dulliau arloesi y gallai ymgymerwyr (mewn ymateb i gefnogaeth cwsmeriaid/rhanddeiliaid) eu cynnig ac sy’n cydymffurfio â gofynion y gyfraith cystadlu.

Dylid cynnal y cydbwysedd presennol bras rhwng cyfraniadau datblygwyr at gostau a chyfraniadau’r rhai sy’n talu’r biliau, er y caiff Ofwat eu hadolygu ac ymgynghori ar y mater hwn, ac argymell newidiadau i’r canllawiau hyn yn y dyfodol os bydd angen.

**iv) Cynaliadwyedd amgylcheddol**
Dylai ffioedd adlewyrchu costau perthnasol yn briodol er mwyn darparu cymhellion ar gyfer defnyddio adnoddau'n effeithlon ac ar gyfer datrysiadau arloesi sy'n gynaliadwy yn y tymor hirach, pan fo'n briodol, gan ystyried y rhyngweithiadau a'r cymhellion a gynigir gan elfennau eraill o'r dirwedd reoleiddiol.

Gall costau darparu a gwella seilwaith ddibynnu ar y penderfyniadau a wnaed gan y datblygwr o ran lleoliad y safle. Dylai ffioedd cysylltu adlewyrchu costau'r gwahanol benderfyniadau. Gall hyn fod yn arwydd i ddatblygwyr i annog defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

Mae dull gweithio'r Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS) yn ganolog i reoli dŵr wyneb yn y dyfodol, a gellir ei ddefnyddio i helpu i gydymffurfio a deddfwriaeth Cymru, y DU ac Ewrop o ran yr amgylchedd ac ansawdd dŵr. Gall cynlluniau SuDS leihau cyfaint a llif y gormodedd o ddŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'r seilwaith carthffosiaeth. Gall ymgymerwyr fabwysiadu nodweddion a seilwaith SuDS yn unol â'u dyletswyddau cyfreithiol a rheoleiddiol.

Nid oes dyletswydd ar ymgymerwyr i fabwysiadau SuDS oni bai eu bod o dan gategori carthffosydd, draeniau neu waith gollwng carthffosiaeth at ddibenion adran 104 o'r Ddeddf ond mae ganddynt yr hawl i adeiladu eu SuDS eu hunain (adran 114A).

Dylai Ofwat ystyried sut y gall y rheolau codi tâl hyrwyddo'r defnydd o SuDS gan eraill. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cyfle i gymell y defnydd o SuDS gan eraill, pan fyddant yn creu cysylltiadau â'r system garthffosiaeth gyhoeddus, drwy ddarparu gostyngiadau neu gyfraddau arbennig o dan yr amgylchiadau hynny.

**v) Hefyd, dylai Ofwat ystyried ac ymgynghori ar:**

- Pa un a allai trefniadau codi tâl ymgymerwyr fod â goblygiadau gwahanol ar gyfer ceisiadau am adeilad sengl ac adeiladau lluosog, ac os felly, pa un a ddylai rheolau codi tâl gael eu cymhwyso'n wahanol er mwyn adlewyrchu'r effeithiau hynny;

- Rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ffioedd ar gyfer gwasanaethau y gellir eu cyflawni gan ymgymerwyr yn unig fod yn gyfwerth ar y cyfan â'r costau dros gyfnod penodol er mwyn helpu i sicrhau y cedwir y prisiau hynny ar lefelau sydd fyw neu lai yn adlewyrchu'r costau. Mae llai o gyfle o lawer ar gyfer rheoliadau i bennu'r ymagwedd tuag at ffioedd am wasanaethau y gellir cystadlu amdanynt.

- Pa un a oes angen trefniadau pontio ac, os felly, pa drefniadau sydd eu hangen i leihau'r beichiau ar bob parti yn ystod y cyfnod pontio o'r gofynion presennol i ofynion codi tâl newydd, fel y gall datblygwyr ac ymgymerwyr reoli eu perthynas a chynllunio â hyder ac eglurder.

## 4. Canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer swmpgyflenwad a swmp ollyngiad

*Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i gytundebau rhwng ymgymerwyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, a dylid eu cymhwyso, pan fo'n gyson â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol, i gytundebau trawsffiniol.*

4.1. Cytundebau swmpgyflenwi yw cytundebau rhwng ymgymerwyr dŵr penodedig ar gyfer cysylltu a throsglwyddo dŵr o un ymgymerwr i'r llall. Mae'n bosibl iddynt fod yn fodd o wella cydnerthedd y rhwydwaith, gallant gynorthwyo ymgymerwyr dŵr i gyflawni eu dyletswyddau i gyflenwi dŵr yn fwy effeithlon a gallant hefyd fod yn fodd i ymgymerwyr newydd gyflenwi dŵr i'w cwsmeriaid.

4.2. O dan adran 40E o'r Ddeddf, bydd gan Ofwat y pŵer i wneud rheolau codi tâl ar gyfer cytundebau swmpgyflenwi. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyflwyno canllawiau i Ofwat ar gynnwys y rheolau codi tâl hynny o dan adran 40I o'r Ddeddf. Hefyd, o dan adran 144ZE o'r Ddeddf, mae ganddynt bwerau i roi canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion sy'n gymwys i'r rheolau codi tâl hyn.

4.3. Cytundebau swmp ollwng yw cytundebau rhwng ymgymerwyr carthffosiaeth i wneud prif gysylltiad ag un o systemau carthffosiaeth yr ymgymerwyr. Gelwir y cytundebau hyn yn 'gytundebau prif gysylltiad carthffosiaeth' yn y Ddeddf ac maent yn cyfateb i gytundeb swmpgyflenwi ar gyfer dŵr.

4.4. O dan adran 110F, bydd gan Ofwat y pŵer i lunio rheolau codi tâl ar gyfer cytundebau prif gysylltiad carthffosiaeth ac mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyflwyno canllawiau i Ofwat o dan adran 110J o'r Ddeddf ar gynnwys y rheolau codi tâl hynny. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bwerau o dan adran 144ZE o'r Ddeddf i roi canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion sy'n gymwys i'r rheolau codi tâl hyn mewn cysylltiad â chytundebau cysylltu sy'n cynnwys cysylltu â system garthffosiaeth ymgymerwr carthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru er budd ymgymerwr arall o'r fath. Ceir ymarfer y pŵer i gyflwyno canllawiau ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol pan fo'r cytundeb cysylltu yn ymwneud â chysylltiad â system carthffosiaeth ymgymerwr carthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru er budd ymgymerwr carthffosiaeth sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr, ac i'r gwrthwyneb.

4.5. Wrth bennu rheolau codi tâl ar gyfer Penodiadau ac Amrywiadau Newydd (NAVs) a chwmnïau sydd newydd ddechrau masnachu, dylai Ofwat geisio sicrhau chwarae teg ac nad yw'n rheoleiddio i'w hannog nhw yn fwriadol ar draul cwsmeriaid presennol neu ddyfodol arfaethedig naill ai'r NAVs neu'r ymgymerwr penodedig er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth mewn fframwaith codi tâl niwtral.

4.6. Wrth bennu rheolau codi tâl, dylai Ofwat ystyried y cydbwysedd priodol o gymhellion er mwyn sicrhau bod ffioedd yn adlewyrchu cost lawn y fasnach, gan gynnwys costau amgylcheddol ac effeithiau ar gydnerthedd y cyflenwadau dŵr, pan fyddai'r costau fel arall yn cael eu hysgwyddo gan gwsmeriaid Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat sicrhau, pan fo'n gyson â'r fframwaith cyfreithiol y mae'n gweithredu ynddo a'n trefniadau â Llywodraeth y DU, na chaiff swmpgyflenwadau trawsffiniol newydd eu cymorthdalu gan gwsmeriaid ymgymerwyr sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, a'u bod yn cael gwerth teg am ddefnyddio adnoddau yn gyson a'r gyfraith cystadlu.

4.7. Dylai ffioedd fod yn dryloyw ac yn rhagweladwy pan fo'n bosibl. Dylai Ofwat ystyried sut i gyflawni hyn, gan gynnwys pa un a ddylai rheolau codi tâl ddarparu canllawiau clir ar sut y dylai costau gael eu mesur ac ar sut y dylai costau cyffredinol gael eu dyrannu, a pha un a ddylai'r ffioedd a/neu'r dulliau o gyfrifo'r ffioedd hynny gael eu cyhoeddi gan ymgymerwyr.

4.8. Mae llawer o'r cytundebau swmpgyflenwi sy'n bodoli eisoes yn drefniadau hirdymor sydd wedi bod ar waith ers llawer o flynyddoedd. Wrth bennu rheolau codi tâl o ran swmpgyflenwadau, dylai Ofwat ystyried trefniadau pontio ac, yn benodol, pa un a ddylai rheolau codi tâl newydd fod yn gymwys i drefniadau sy'n bodoli eisoes a sut y byddai modd cymhwyso'r rhain.

4.9. Pan nad oes gwrthdaro â'r gyfraith cystadlu nac â'n canllawiau mewn cysylltiad â NAVs a chwmnïau newydd, dylai Ofwat ei gwneud yn ofynnol i ffioedd cwmnïau adlewyrchu'r costau a godir o unrhyw gytundeb, fel nad oes unrhyw drawsgymorthdaliadau i'r ymgymerwr sy'n derbyn y cyflenwadau o wasanaethau dŵr neu garthffosiaeth. Gallai costau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, adeiladu/cynnal a chadw seilwaith, trin dŵr, gwaith i atal neu i atgyweirio unrhyw ddifrod amgylcheddol, gwaith angenrheidiol i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, ac unrhyw gostau dilynol. Dylai rheolau codi tâl Ofwat hyrwyddo ymgynghoriad effeithiol, amserol a chymesur. Dylai Ofwat annog cwmnïau i ddeall ac i ymgysylltu â'u cwsmeriaid ac yn benodol, dylai ymgymerwyr allu cyfiawnhau ac esbonio eu dull o weithio. Dylai Ofwat ystyried sut y gellir defnyddio'r rheolau codi tâl i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau ymgynghori â'u cwsmeriaid a'u rhanddeiliaid, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a Chyfoeth Naturiol Cymru ac esbonio sail y ffioedd y maent yn eu pennu.

4.10. Dylai trefniadau newydd gynnwys mecanwaith i adolygu telerau'r cytundeb yn rheolaidd.

## 5. Canllawiau ar reolau codi tâl ar gyfer mynediad at rwydweithiau dŵr

5.1. Bydd ymgymerwyr dŵr yn adennill ffioedd o drwyddedeion cyflenwi dŵr o dan gytundebau ("cytundebau o dan adran 66D" at ddibenion y Ddeddf). Caiff ymgymerwyr dŵr godi tâl gan drwyddedeion dŵr ar gyfer defnyddio rhwydweithiau dŵr yr ymgymerwyr i gyflenwi dŵr i gwsmeriaid trwyddedeion dŵr. Mae adran 66E o'r Ddeddf (fel y'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Dŵr 2014) yn caniatáu i Ofwat gyhoeddi rheolau codi tâl ar gyfer ffioedd a allai gael eu codi gan ymgymerwyr dŵr yn ôl cytundebau o dan adran 66D.

5.2. Mae'n rhaid i Ofwat gyhoeddi rheolau o ran ffioedd o dan adran 66E o'r Ddeddf. O dan adran 144ZE o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion i'w defnyddio gan Ofwat wrth benderfynu ar y rheolau codi tâl hynny. Yn ogystal â hynny, caiff Gweinidogion Cymru, o dan adran 66ED o'r Ddeddf, ddarparu canllawiau i Ofwat ar gynnwys y rheolau codi tâl hynny. Ar gyfer cyflenwadau sydd rhwng ymgymerwr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ac ymgymerwr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr (neu yn y naill achos, person a fyddai'n ymgymerwr o'r fath, pe bai cais y person am benodiad neu amrywiad yn cael ei gadarnhau), mae'n rhaid cyflwyno canllawiau ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol.

5.3. Wrth bennu rheolau codi tâl o ran mynediad, dylai Ofwat ystyried y cydbwysedd cywir o gymhellion er mwyn sicrhau bod y ffioedd yn adlewyrchu cost lawn y mynediad, gan gynnwys yr effeithiau ar gwsmeriaid cyfredol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat sicrhau na chaiff mynediad ei gymorthdalu gan gwsmeriaid presennol.

5.4. Dylai ffioedd mynediad fod yn dryloyw ac yn rhagweladwy a dylai Ofwat geisio cyfyngu'r cyfleoedd am anghydfod yn y dyfodol sy'n seiliedig ar wahanol ddehongliadau o'r rheolau codi tâl, cyn belled â bod hynny'n bosibl. Dylai Ofwat ystyried gwahanol ffyrdd o gyflawni hyn, gan gynnwys sut y dylai'r ffioedd a/neu'r dulliau o gyfrifo'r ffioedd hynny gael eu cyhoeddi; a thrwy sicrhau bod unrhyw reolau codi tâl ar gyfer mynediad yn darparu canllawiau clir ar sut y dylid mesur costau a sut y dylai costau cyffredinol gael eu dyrannu ar gyfer mynediad. Dylai Ofwat hefyd fod yn eglur ynghylch perthnasedd y rheolau codi tâl i gyflenwadau cyfunol.

5.5. Wrth bennu rheolau codi tâl o ran mynediad, dylai Ofwat ystyried trefniadau pontio ac, yn benodol, pa un a ddylai rheolau codi tâl newydd fod yn gymwys i drefniadau sy'n bodoli eisoes a sut y byddai modd cymhwyso'r rhain. Dylai Ofwat hefyd ystyried trefniadau gwirioneddol neu arfaethedig ar gyfer rheolau sy'n ymwneud â thelerau ar wahân i bris mewn cytundebau mynediad, megis codau yn adran 66DA o'r Ddeddf, er mwyn sicrhau bod y rheolau codi tâl yn gyson â'r gofynion hynny.

## 6. Atodiad - Crynodeb o ddyletswyddau a phwerau Gweinidogion Cymru i gyflwyno canllawiau i Ofwat ar ffioedd

| Dyletswyddau | Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) | Deddf Dŵr 2014 |
|---|---|---|
| Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar yr egwyddorion sydd wrth wraidd y rheolau codi tâl a gyhoeddir gan Ofwat o dan 66E [**Ffioedd Mynediad**] | 144ZE | 38 |
| Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion sy'n gymwys ar gyfer rheolau o ran cynlluniau ffioedd a gyhoeddir o dan 143B [**Cynlluniau ffioedd**] | 144ZE(1)(c) | 38 |
| Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau o ran cynnwys y rheolau o dan 144ZA [**Ffioedd datblygwyr - cysylltiadau**] | 144ZD(1) – (2) | 17 |
| **Pwerau** | | |
| Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar yr egwyddorion i'w defnyddio gan Ofwat wrth benderfynu ar gynnwys dogfennau eraill a gyhoeddir gan Ofwat o ran ffioedd [**Canllawiau cyffredinol ar ffioedd**] | 144ZE(4) | 38 |
| Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar gynnwys y rheolau o dan 66E [**Ffioedd mynediad**] | 66ED(1) | A. 2(5) |
| Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar gynnwys y rheolau codi tâl a gyhoeddwyd o dan 143B [**Cynlluniau ffioedd**] | 143E(1) | 16 |
| Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion sydd wedi eu cymhwyso yn y rheolau o dan 144ZA [**Ffioedd datblygwyr - cysylltiadau**] | 144ZE(2) | 38 |
| Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion sydd wedi eu cymhwyso yn y rheolau o dan 40E [**Ffioedd swmpgyflenwad**] | 144ZE(2) | 38 |
| Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar gynnwys y rheolau codi tâl a gyhoeddwyd o dan 40E [**Ffioedd swmpgyflenwad**] | 40I | 8 |
| Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion sydd wedi eu cymhwyso yn y rheolau o dan 110F [**Ffioedd cysylltu â'r brif system garthffosiaeth**] | 144ZE(2) | 38 |
| Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar gynnwys y rheolau a gyhoeddwyd o dan 110F [**Ffioedd cysylltu â'r brif system garthffosiaeth**] | 110J(1) | 9 |
| Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion sydd wedi eu cymhwyso yn y rheolau o dan 51CD [**Ffioedd ar gyfer mabwysiadu seilwaith dŵr**] | 144ZE(2) | 38 |
| Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar gynnwys y rheolau a gyhoeddwyd o dan Adran 51CD [**Ffioedd ar gyfer mabwysiadu seilwaith dŵr**] | 51CG | 10 |
| Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion sydd wedi eu cymhwyso yn y rheolau o dan 105ZF [**Ffioedd ar gyfer mabwysiadu seilwaith carthffosiaeth**] | 144ZE(2) | 38 |
| Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar gynnwys y rheolau o dan 105ZF [**Ffioedd ar gyfer mabwysiadu seilwaith carthffosiaeth**] | 105ZI | 11 |
| Caiff Gweinidogion gyflwyno canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion sydd wedi eu cymhwyso gan y rheolau codi ffioedd a gyhoeddwyd yn unol â rheoliadau o dan 66M [**Cytundebau cyflenwi dŵr**] | 144ZE(2)(c) | 38 |